

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
02 Mehefin 2025, 10:00 – 12:50
yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Clare Jenkins	(CJ)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (gadawodd 10:57)
Yn Bresennol:		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio
Neil Desmond	(ND)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitem 5.4)
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 5.3)
Iain Hardcastle	(IH)	Cyfarwyddwr Cynllunio Cenedlaethol (ar gyfer eitem 9)
Nicola Lewis	(NL)	Nyrs Arweiniol, Atal a Rheoli Heintiau (gadawodd 11:00)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Jacqui Westmoreland	(JW)	Rheolwr Diogelwch a Gweithio i Wella (ar gyfer eitem 6)
Angela Williams	(AW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid
Huw Williams	(HW)	Pennaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (ar gyfer eitem 3.2)
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sophie Fuller	(SF)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Gweithrediaeth y GIG

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

Rhan A

QSIC 2025.06.02/1

Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

QSIC 2025.06.02/2

Datganiad o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

QSIC 2025.06.02/3

Eitemau i'w Cymeradwyo

QSIC 2025.06.02/3.1

Cofnodion a Log Gweithredu

Ystyriodd a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04 Chwefror 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad i'r log gweithredu, gan nodi bod un eitem ar y trywydd iawn i'w chyflawni erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

QSIC 2025.06.02/3.2

Adroddiad Blynyddol Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR)

Cyflwynodd MK yr adroddiad blynyddol, a oedd yn adlewyrchiad manwl o ymdrechion Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) y Sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cynghorodd MK hefyd am y mân ddiwygiadau a wnaed i'r cynllun Ymateb i Argyfwng a oedd wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Bwrdd, ac a gynhwyswyd er gwybodaeth a sicrwydd yn y sesiwn breifat oherwydd natur sensitif y Cynllun.

Aeth HW ymlaen i roi trosolwg o'r adroddiad, gan dynnu sylw at:

- Y gwelliannau a wnaed i'r tîm EPRR, ymgysylltiad eang ar draws y Sefydliad a sefydlu gwasanaeth ar alwad 24/7.
- Mae'r ymarferion gwydnwch digidol ar y gweill ac ymdrechion i barhau i gryfhau safle'r Sefydliad o ran parodrwydd ar gyfer pandemig.
- Gwaith rhyngwladol ar y gweill gyda Chymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHIs) a'r ymarfer cenedlaethol haen un sydd ar ddod a'r dilysu mewnol wedi'i gynllunio ar gyfer Ch4 2024-25.

Diolchodd aelodau'r pwyllgor i HW am y trosolwg o'r gwaith cynhwysfawr sydd ar y gweill.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:



- Cymryd **sicrwydd** mewn perthynas â chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil [2004] posibl a Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru [2015].
- Cymryd **sicrwydd** bod Cynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (F3.1, 3.2 nawr) wedi cael adolygiad blynyddol mewnol cyflym ac wedi'i ddiweddarau gyda mân ddiwygiadau (ar gael mewn papurau sesiwn breifat).
- Cymryd **sicrwydd** bod templedi Strategaeth Parhad Busnes (F2), Dadansoddiad Effaith a Chynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u hadolygu a'u diweddarau; gyda chadarnhad pellach bod pob cyfarwyddiaeth/Is-adran wedi adolygu eu trefniadau parhad busnes i ystyried gwydnwch digidol yn benodol.
- **Wedi cymeradwyo** cyflwyniad yr Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau Iechyd i Weithrediaeth y GIG.

QSIC 2025.06.02/3.2

Polisiau a Gweithdrefnau

Cyflwynodd AC y Polisi Hebryngwyr drafft, sef polisi newydd a gynlluniwyd i gefnogi staff a defnyddwyr gwasanaethau yn ystod archwiliadau personol.

Ceisiodd OO fwy o wybodaeth am y pecyn hyfforddi a fyddai ar gael i staff. Gan gynnig rhannu manylion y pecyn hyfforddi gydag OO maes o law, aeth AC ymlaen i gadarnhau y byddai sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu, yn bennaf o fewn gwasanaethau'r rhaglen sgrinio fel Bron Brawf Cymru a rhaglenni sgrinio Anewrysm Aortig yn yr Abdomen (AAA) Cymru. Byddai'r hyfforddiant yn cwmpasu rolau a chyfrifoldebau aelodau staff a sut i roi gwybod am bryderon fel bod staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth lawn ac yn hyderus i gyflawni eu rôl yn llawn.

Gan dynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch staff, diolchodd CB i AC am ei harweinyddiaeth ac i'r tîm am eu cefnogaeth wrth ddatblygu'r Polisi Hebryngwyr.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodwyd** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Polisi i'r Pwyllgor ac wedi cymeradwyo'r weithdrefn gysylltiedig.
- **Cymeradwywyd** y Polisi Hebryngwyr.

QSIC 2025.06.02/4

Cadarnhau Argymhelliad i'r Bwrdd

Cyflwynodd LB y cyflwyniad ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor, y Cylch Gorchwyl (TOR) diwygiedig a'r cynllun gwaith ar gyfer 2025-26, gan dynnu sylw at y ffaith bod Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 wedi'u cymeradwyo gan y Cadeirydd blaenorol, Diane Crone, cyn iddi ymadael, a'u bod wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor o edrych yn ôl oherwydd amseriad cyfarfod y Bwrdd (a gynhaliwyd ar 29 Mai 2025).

Nododd CJ fod newidiadau wedi'u cytuno gan y Bwrdd i gylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymwneud ag enwi Gweithrediaeth y GIG a fyddai'n cael eu hadlewyrchu yn y fersiynau terfynol a gyhoeddir.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** cyflwyniad ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor

- **Cadarnhau** cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl, gan nodi'r newid o Weithrediaeth y GIG i Uned Perfformiad a Gwella'r GIG.
- **Cadarnhau** cymeradwyo Cynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26
- **Nodi** bod y cyflwyniad Effeithiolrwydd, y Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Gwaith wedi'u cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

QSIC 2025.06.02/5	Eitemau ar gyfer Sicrwydd
QSIC 2025.06.02/5.1	Adroddiad Ansawdd, Llywodraethu a Pherfformiad

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Ansawdd, Llywodraethu a Pherfformiad ar gyfer Chwarter 4, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

Gweithio i Wella (PTR), Ch4

Crynhodd AC yr adran PTR, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon a adroddwyd ac y gweithredwyd arnynt yn ystod Chwarter 4, gan gynnwys:

- Adroddwyd am 528 o ddigwyddiadau, ac adroddwyd am 13 ohonynt yn wreiddiol fel niwed cymedrol. Mae 12 wedi cael eu hisraddio ers hynny ac mae 1 wedi aros ar agor. Cyngorodd AC am ddarn allweddol o waith sydd ar y gweill i wella'r asesiad cychwynnol o ddigwyddiadau a lefel y niwed.
- Roedd 64 o ddigwyddiadau gyda statws hwyr. Yn debyg i Chwarter 3, roedd y categori mwyaf yn ymwneud ag asesu ac ymchwilio; ac yn benodol methu â dilyn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs).
- Nid oedd unrhyw achosion o wneud iawn yn Chwarter 4. Roedd 6 achos a adroddwyd yn flaenorol yn parhau ac yn destun ymchwiliad.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Gan nodi'r amser a gymerir i reoli achosion, ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y camau gweithredu a gymerir i leihau achosion hwyr. Cyngorodd AC fod yr achos hwyr ers amser yn dibynnu ar drydydd parti, ond bod datrysiad i'w gael. Aeth AC ymlaen i dynnu sylw at yr ymdrechion sylweddol a wnaed i gau arosiadau hir a oedd yn cynnwys cysylltu â Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i wella rheoli digwyddiadau.
- Gwella mynediad at hyfforddiant datix. Dywedodd AC fod hyfforddiant yn cael ei gynnig i bob dechreuwr newydd a bod cynnig misol ar gael i'r holl staff. Nododd AC hefyd fod y tîm Gweithio i Wella yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr i dargedu ardaloedd yn ôl yr angen, a byddai ymwybyddiaeth hefyd yn cael ei chodi fel rhan o wythnos diogelwch genedlaethol ym mis Medi. Cadarnhaodd AC y byddai'n gofyn i'r Grŵp Arweinwyr Busnes a Chynllunio godi ymwybyddiaeth gyda'u grwpiau staff a'i roi yng Nghylchlythyr y Rheolwyr Llinell.

Profiad y Claf/Defnyddiwr Gwasanaeth Ch4

Tynnodd AC sylw at y canlynol:

- 22 o gwynion datrysiad cynnar, a 13 cwyn ffurfiol.
- Ni adroddwyd unrhyw achos dyletswydd gonestrwydd y chwarter hwn.
- Derbyniwyd 139 o ganmoliaeth.
- Cynnydd gyda'r rheoliadau Gweithio i Wella diwygiedig a'r paratodau rhagarweiniol sydd i'w gwneud yng ngoleuni'r goblygiadau posibl i'r Sefydliad a defnyddwyr gwasanaethau.



- Llwyddiant mewn cyflwyno arolwg SMS peilot ar draws 8 lleoliad Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Cynghorodd AC am y nifer dda o dderbyniadau a bod yr adborth cychwynol yn canolbwyntio ar yr adeilad a'r meysydd parcio.

Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch4

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Adroddwyd ar 20 o ymholiadau diogelu, yn bennaf yn ymwneud â chyngor a chymorth.
- Y gwaith sydd ar y gweill i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant Diogelu.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Holi am y cynnydd mewn ymholiadau diogelu. Cynghorodd AC fod y rhain yn debygol o fod o ganlyniad i godi proffil diogelu, a chroesawodd y tîm y cyfle i roi mwy o gyngor a chefnogaeth yn gynnar.

Gwaith y Grŵp Corfforaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Ch4

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Adroddwyd am 14 digwyddiad, ac ystyriwyd bod pob un ohonynt o niwed isel neu ddim niwed o gwbl.
- Cynlluniau i gyflwyno hyfforddiant pellach ar y Dechneg Aseptig Di-gyffwrdd, yn enwedig ar draws gwasanaethau sgrinio.
- Camau unioni ar waith i fynd i'r afael â phryderon cydymffurfio â safonau glanhau mewn rhai gwasanaethau sgrinio.
- Y gwaith gwych sydd ar y gweill i gefnogi archwilio drwy weithredu system rheoli archwilio newydd.

Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch, Ch4

Nododd y Pwyllgor fod 1 hysbysiad diogelwch sy'n berthnasol i'r Sefydliad yn cael ei weithredu yn unol â hynny.

Archwiliad Ansawdd a Chlinigol, Ch4

Nododd y Pwyllgor y cynnydd o ran y cynllun Archwiliad Ansawdd a Chlinigol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.
- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

QSIC 2025.06.02/5.2

Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2024-25 ac Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Gonestrwydd 2024-25

Cyflwynodd CB yr adroddiadau blynyddol, gan nodi eu bod wedi'u paratoi yn unol â gwahanol reoliadau a chrynhoi'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod fel rhan o'r adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd.



Rhoddodd AC drosolwg o Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2024-25, a roddodd drosolwg o'r broses o reoli pryderon a'r camau dilynol a gymerwyd i wella gwasanaethau. Tynnodd AC sylw at y canlynol:

- Credir bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd oherwydd ymdrechion i ymgorffori diwylliant adrodd cadarnhaol.
- Cynnydd mewn cwynion a chamau gweithredu wedi'u hamlygu i fynd i'r afael â hyn megis y broses ddiwygiedig ar gyfer rheoli cwynion i gefnogi dull mwy amserol a mwy person-ganolog o reoli cwynion.
- Y gostyngiad blynyddol yn nifer yr atebion cynnar, achosion iawndal, hawliadau ac achosion sydd wedi bod yn hwyr iawn a adroddwyd.
- Y ffocws ar waith gwella sy'n gysylltiedig ag adrodd ar ddigwyddiadau, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yn hwyr a gwelliannau i'r broses uwchgyfeirio.
- Un cosb ariannol i'r Sefydliad gan Gronfa Risg Cymru oherwydd cyflwyno Adroddiad Dysgu ar gyfer Digwyddiadau yn hwyr.

Aeth AC ymlaen i roi trosolwg o Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gyfer 2024-25, gan dynnu sylw at:

- Ymchwiliad i ddau achos wedi'u cadarnhau, ac un ohonynt yn achos ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y diweddariadau diweddaraf ar y ddau achos o fewn meysydd Bron Brawf Cymru a Microbioleg yn flaenorol ac roedd dysgu a nodwyd wedi'i rannu er mwyn gwella gwasanaethau a datblygiad staff.
- Roedd y ddyletswydd gonestrwydd ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu yn 88%.

Diolchodd y Pwyllgor i AC am gyflwyno'r adroddiadau blynyddol a:

- Cymerodd **sicrwydd** bod y sefydliad yn rheoli gweithrediad Rheoliadau Gweithio i Wella (2011) yn effeithiol.
- Cymerodd **sicrwydd** bod achosion Dyletswydd Gonestrwydd yn cael eu rheoli yn unol â chanllawiau rheoleiddio a'r polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys dysgu sefydliadol a'r sicrwydd rhesymol a dderbyniwyd o adroddiad yr Archwiliad Mewnol.

QSIC 2025.06.02/5.3	Sicrwydd Ansawdd
QSIC 2025.06.02/5.3.1	Cofrestr Risg Strategol

Cyflwynodd CB yr adroddiad a mynegodd ei diolch i'r holl gydweithwyr a oedd wedi adolygu ac ailfapio'r gofrestr risg strategol ac wedi cyfrannu at y dull templed diwygiedig. Byddai'r dull diwygiedig, parodrwyd i dderbyn risg a'r bensaernïaeth yn cael eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.

Rhoddodd DG drosolwg o'r risg newydd, gan nodi bod y camau gweithredu newydd wedi'u mapio ar draws i'r rheolaethau blaenorol a'r camau gweithredu i'r rhai newydd er mwyn cynnal tryloywder. Tynnwyd sylw hefyd at y risgiau corfforaethol sy'n cefnogi'r risg hon.

Cynghorodd MK fod y datganiad risg wedi'i ddiweddarau yn adlewyrchiad da o'r rheolaethau a'r gweithgaredd sydd ar waith i liniaru'r risg o ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol a rhagwelodd y byddai ffocws pellach ar effaith, capasiti ymchwyd a hyfforddiant, ac yn olaf y mapiau llwybrau ar gyfer gwydnwch digidol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cydnabod ffocws cadarnhaol o amgylch digwyddiadau annisgwyl a cheisio sicrwydd ynghylch y bartneriaeth â gweddill y Deyrnas Unedig (DU) ynghylch risgiau posibl. Cadarnhaodd MK ei fod yn hyderus bod Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gysylltu â sgysiau'r DU ynghylch sganio'r gorwel, a rhybuddion cynnar, a chadarnhaodd fod mecanweithiau ffurfiol a mecanweithiau llai ffurfiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y pedair gwlad, ac ystyried pandemigau a bygythiadau byd-eang.
- Canmolodd MK a'i dîm am eu hymdrechion, yn enwedig o amgylch themâu atal.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli risgiau strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

QSIC 2025.06.02/5.3.2

Y Gofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynodd CB y Gofrestr Risg Corfforaethol, a oedd yn amlinellu'r newidiadau a gymeradwywyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ac yn cloi'r diweddariad drwy dynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd wedi cynnal trafodaeth dda ar y Risgiau Corfforaethol yn ei gyfarfod Bwrdd ym mis Mai.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar reolaeth y Risg Corfforaethol o fewn y Sefydliad.

QSIC 2025.06.02/5.5

Diweddariad Polisi ddwywaith y flwyddyn

Cyflwynodd LB yr adroddiad, gan nodi bod 93% o bolisiau yn gyfredol. Tynnodd LB sylw at y 2 bolisi sydd allan o ddyddiad ar gyfer adolygiad y Pwyllgor; polisi unffurf sy'n aros am adolygiad Cymru gyfan a pholisi Rheoli Dŵr a oedd i'w gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisiau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Egwyl

QSIC 2025.06.02/5

Eitemau ar gyfer Sicrwydd (Parhad)

QSIC 2025.06.02/5.4

Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 4 2024-25

Cyflwynodd ND yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 4, 2024-25, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch a gyflawnwyd ar gyfer y cyfnod hwn. Nododd ND nifer o bwyntiau pwysig o'r adroddiad:

- Roedd cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn argymhellion archwiliad arferol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o labordai microbioleg.
- Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).
- Roedd cydymffurfiaeth 100% ar draws pob safle ar gyfer gofynion rheoli adeiladau statudol a rheoleiddiol.
- Roedd lefelau hyfforddiant statudol a gorfodol ar 85% ac roedd hyfforddiant e-ddysgu gweithio gartref hefyd yn flaenoriaeth i'r Sefydliad.



Nododd y Pwyllgor y cynnydd mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thraffig ffyrdd, yn ogystal â chyfraddau uwch o lithro, baglu a chwmpo. Dywedodd ND fod y ddau yn ddigwyddiadau arferol ac nad oeddent yn destun pryder. Tynnodd sylw at gyflwyniad diweddar Gweithdrefn Telemateg Cerbydau ar gyfer gwasanaethau sgrinio a oedd â'r nod o gefnogi diogelwch staff.

Aeth ND ymlaen i gyflwyno'r adroddiad blynyddol Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2024/25, a oedd yn amlinellu ac yn dangos y cynnydd a wnaed a'r materion allweddol a oedd wedi cael sylw drwy gydol y flwyddyn. Tynnodd sylw at:

- Ymgysylltu â gwasanaethau Microbioleg a Pobl a Datblygu Sefydliadol er mwyn gwella a chefnogi rheoli digwyddiadau.
- Cyflwyno archwiliadau cynhwysfawr newydd a gynhaliwyd ar draws safle'r Sefydliad.

Daeth ND i ben drwy gyflwyno'r cynllun gwaith Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2025-26, gan dynnu sylw at y datblygiad polisi arfaethedig, y datblygiad arfaethedig o set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a chynnydd gydag arolwg diwylliant diogelwch yn y gweithle posibl.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Cynghorodd CB eu bod yn aros am safonau glanhau diwygiedig, a fyddai'n debygol o arwain at rai gofynion adnoddau a chapasiti ychwanegol ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch.
- Yr angen i sicrhau bod Byrddau Iechyd yn cydymffurfio â rheoli cyfleusterau priodol. Cadarnhaodd ND eu bod yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i wella cyfleusterau a bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLAs) a Memoranda Cydddealltwriaeth (MoUs) ar waith y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael â phryderon pe bai angen. Parhaodd y Tîm i feithrin perthnasoedd da â Byrddau Iechyd er mwyn ceisio cael data cydymffurfio mewn modd amserol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.
- Cymryd **sicrwydd**, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol, bod Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn cael ei reoli'n rhagweithiol, a'i fonitro trwy archwiliadau, Datix, adroddiadau RIDDOR a'i gefnogi gan bolisiau a gweithdrefnau priodol.
- **Nodwyd** y cynllun gwaith ar gyfer 2025-26.

QSIC 2025.06.02/6

Archwiliad Dwfn - Cwynion a Digwyddiadau

Cyflwynodd CB y broses archwiliad dwfn, gan groesawu'r cyfle i rannu'r gwaith gwella o amgylch prosesau, ymchwilio a rhannu dysgu.

Cyflwynodd JW y trosolwg archwiliad dwfn drwy ystyried y chwe maes ansawdd, gan dynnu sylw at:

- Cyflawniadau allweddol megis gwell ymgysylltiad ar draws y system a oedd wedi arwain at gynnydd cadarnhaol yn y diwylliant adrodd ar ddigwyddiadau, gostyngiad mewn cwynion, yn enwedig o fewn gwasanaeth Sgrinio Llygaid



Diabetig Cymru, a gwelliannau prosesau megis datrys cwynion / pryderon yn gyflymach. Roedd hyn wedi lleihau'r ôl-groniad mewn modd diogel ac amserol, ac wedi cynyddu hyder cleifion a staff.

- Stori darpariaeth iechyd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr gwasanaeth, a nifer o enghreifftiau 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' a helpodd i amlygu'r problemau hygrychedd a chydardoldeb y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu hwynebu a'r camau lliniaru a gymerir i fynd i'r afael â'r rhain. Enghreifftiau o hyn oedd ymestyn oriau/diwrnodau agor a chyflwyno unedau sgrinio symudol i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd, a'r cynlluniau sydd ar waith i wella'r arddangosiad o ddysgu o ddiwyddiadau.
- Risgiau rhaglen gwasanaeth, megis newidiadau oherwydd rheoliadau Gweithio i Wella a'r effaith ar adnoddau'r Sefydliad, yn enwedig y gofyniad disgwylidiedig i gynnig cyfarfod gwrando wyneb yn wyneb a chamau lliniaru posibl.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Sut y gellid cymhwyso'r dysgu yn systematig ledled y Sefydliad a'r awgrym o safonau hygrychedd y dylid eu dilyn er mwyn datrys y pryderon hygrychedd a godwyd yn y stori defnyddiwr gwasanaeth. Cyfeiriodd JW at y nod o sicrhau bod cyfarwyddiaethau'n teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi i allu rhannu eu dysgu a gwnaeth sylwadau ar yr angen i ymgorffori hyn fel arfer arferol. Cododd AC bwysigrwydd y broses hunanasesu. Myfyriodd CB ar gynllun gweithredu Archwilio Mewnol y Ddyletswydd Ansawdd a oedd yn amlinellu'r angen i wella lledaeniad a gwydnwch dysgu a thystiolaeth ac amlygodd y byddai cynnig yn cael ei ail-drafod yn y Grŵp Goruchwyllo Ansawdd.
- Ystyriaeth o sut i fframio ein cyfathrebu allanol i sicrhau'r cynhwysiant a'r hygrychedd mwyaf posibl, fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol y byddai'r Sefydliad yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i hwyluso eu sgrinio ymlaen llaw, ac ystyriwyd awgrym i archwilio cludiant hygrych a'r cyfle i ddarparu ad-daliad yn unol â Byrddau Iechyd eraill.
- Gwelliannau yn y ffordd y caiff cwynion anffurfiol a ffurfiol eu hadnabod a'r defnydd o Datix fel un ffynhonnell gwirionedd. Cadarnhaodd JW ei bod hi'n cyfarfod yn rheolaidd â phob cyfarwyddiaeth, ac yn benodol â rhaglenni sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau bod Datix wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, a gwnaeth sylwadau ar ddefnyddioldeb Datix i allu nodi themâu ar draws y gwasanaethau y gellid mynd i'r afael â nhw a'u gwella.
- Croesawodd y swyddogaeth alluogi a nodwyd bod y tîm Gweithio i Wella yn darparu meysydd pwrpasol y maent yn eu cefnogi, ar gyfer ymholiadau arferol a chwynion / pryderon cymhleth.

Diolchodd y Pwyllgor i JW am y cyflwyniad cynhwysfawr a manwl a stori'r claf a oedd yn ysgogi'r meddwl a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y trefniadau sydd ar waith ar gyfer Rheoliadau Gweithio i Wella.

QSIC 2025.06.02/7

Eitemau i'w Nodi

QSIC 2025.06.02/7.1

Archwilio

Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Y Traciwr Argymhellion Archwilio Mewnol
- Adroddiad Archwilio Mewnol Dyletswydd Gonestrwydd

<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Archwilio Mewnol Cynllun Gwella Caffael Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio 		
<table border="1"> <tr> <td>QSIC 2025.06.02/7.2</td> <td>Adolygiad Blynyddol Grwpiau Adrodd</td> </tr> </table>	QSIC 2025.06.02/7.2	Adolygiad Blynyddol Grwpiau Adrodd
QSIC 2025.06.02/7.2	Adolygiad Blynyddol Grwpiau Adrodd	
<p>Nododd y Pwyllgor y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cylch Gorchwyl Atal a Rheoli Heintiau Cylch Gorchwyl y Grŵp Diogelu 		

Rhan B	Busnes Perfformiad a Gwella'r GIG
QSIC 2025.06.02/8	Datganiad o Fuddiant
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>	
QSIC 2025.06.02/9	Adroddiad Cydymffurfedd Llywodraethu Chwarterol Gweithrediaeth y GIG (Ch4)
<p>Cyflwynodd a rhoddodd IH drosolwg o'r Adroddiad Cydymffurfedd Llywodraethu Chwarterol ar gyfer Chwarter 4, gan dynnu sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> O heddiw ymlaen byddai Gweithrediaeth y GIG yn cael ei henwi'n Uned Perfformiad a Gwella'r GIG. Roedd un gŵyn wedi'i datrys yn ddiweddar, ac roedd un hawliad yn parhau. Er nad oedd unrhyw Adroddiadau Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol ar gyfer Chwarter 4, mae un wedi'i gyflwyno ar ôl 31 Mawrth 2025 ac roedd yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd. <p>Diolchodd y Pwyllgor i IH am y diweddariad a gwnaeth y canlynol:</p> <p>Iechyd a Diogelwch</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymryd sicrwydd bod mesurau priodol i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella. <p>Cydymffurfedd Adrodd ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy yn ystod y cyfnod adrodd. <p>Cydymffurfedd Cwynion (gan gynnwys PTR os yn berthnasol)</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod un gŵyn wedi'i derbyn ar gyfer y cyfnod hwn a bod adolygiad yn ystod Chwarter 4 <p>Adrodd ar hawliadau (hawliadau gan staff a thrydydd parti)</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd bod un hawliad yn mynd rhagddo, a adroddwyd amdano gyntaf yn Chwarter 3. <p>Cydymffurfedd DATIX</p>	



- **Nodwyd** bod pump o ddigwyddiadau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch wedi'u hadrodd drwy Datix yn ystod y cyfnod adrodd a chymerodd sicrwydd bod y broses briodol wedi'i dilyn i reoli'r digwyddiadau hyn.

Cydymffurfedd Diogelu

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw faterion diogelu wedi eu hadrodd yn ystod y cyfnod hwn.

QSIC 2025.06.02/10	Gweinyddiaeth Cloi
QSIC 2025.06.02/10.1	Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus
Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw adborth gael ei anfon at LB.	
Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26 Awst 2025	
Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.	
<i>Daeth y sesiwn agored i ben am 12:05</i>	

Heb eu Cadarnhau